



Gweithwyr gofal preswyl i blant sydd ar y Gofrestr

1 Ebrill 2019



Beth yw'r prif bwyntiau?

Mae gweithwyr gofal preswyl i blant wedi cofrestru gyda ni ers **2008**

Mae **2,894** o weithwyr wedi'u cofrestru, sef cynnydd ar **2,666** y llynedd

Mae **2,671** yn gweithio mewn gofal preswyl i blant ar hyn o bryd

Gall gweithwyr gofal preswyl i blant sydd heb gymhwyster gofynnol gofrestru ar ôl cwblhau'r Fframwaith Sefydlu Cymru Gyfan. Wedyn, rhaid iddynt gymhwyso o fewn tair blynedd



Beth yw'r tueddiadau dros bum mlynedd?

Mae nifer y gweithwyr gofal preswyl i blant sydd ar y Gofrestr wedi tyfu **34%** yn y pum mlynedd diwethaf

Mae canran y gweithwyr ar y Gofrestr sydd wedi cymhwyso wedi gostwng o **59% yn 2014** i **47% eleni**

Mae'r ganran sy'n gweithio yn y sectorau preifat, awdurdodau lleol a'r trydydd sector wedi aros yn gymharol debyg yn y pum mlynedd diwethaf



Faint sydd wedi gadael ac wedi ymuno â'r Gofrestr?

Yn y flwyddyn ddiwethaf, gadawodd **361** o weithwyr y Gofrestr ac ymunodd **589**

O'r rhai a adawodd y Gofrestr, dilëwyd **73%** ohonynt gan nad oeddent wedi cynnal eu cofrestrriad

Roedd **12.5%** o'r rhai a adawodd wedi gofyn am gael eu dileu gan nad oeddent bellach yn gweithio mewn gofal preswyl i blant yng Nghymru

Roedd **25** gweithiwr wedi newid rôl i reolwr gofal preswyl i blant



Pa gymwysterau sydd gan weithwyr?

Mae gan **24%** o weithwyr gymhwyster FfCCh cyfredol

Mae gan **23%** gymhwyster cyfwerth derbyniol

Mae **53%** o weithwyr heb gymhwyso ac wedi'u cofrestru gyda'r fframwaith sefydlu



Ym mhle mae gweithwyr yn cael eu cyflogi?

Mae **75%** yn gweithio yn y sector preifat

Mae **18%** yn gweithio mewn gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol

Mae **5.5%** yn gweithio yn y trydydd sector

Mae **25%** o weithwyr wedi bod yn eu rôl bresennol am bum mlynedd neu fwy

Mae **56%** o weithwyr wedi newid i rôl newydd o fewn y tair blynedd diwethaf



Beth yw proffil y gweithwyr?

Mae **1,769** o fenywod a **1,125** o ddynion

Oedran cyfartalog y gweithwyr yw **38** mlwydd oed

Mae **95.5%** o weithwyr yn wyn, gwyn Prydeinig, gwyn Cymreig neu wyn Gwyddelig

Mae **39.5%** o weithwyr yn siarad rhywfaint o Gymraeg neu'n rhugl yn y Gymraeg

Mae anabledd gan **1.4%** o weithwyr